

The image features a vibrant, abstract painting in the background with a mix of yellow, green, and purple hues. A solid blue horizontal bar is positioned below the text. At the bottom of the image, there are dark, expressive brushstrokes on a light-colored surface.

Silff Storis

Silff Storis

Silff Storis

Dyfeisiwyd gan Uned Celfyddydau Cymunedol, Cyngor Gwynedd

Developed by the Community Arts Unit, Cyngor Gwynedd

www.gwyneddgreedigol.com – www.creativegwynedd.com

Cynhaliwyd y gweithdai yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2014

Workshops held during November and December 2014

Artist : Catrin Williams

Storiwraig *Storyteller* : Fiona Collins

Swyddog Prosiect *Project Officer* : Gwawr Wyn Roberts

Gyda phlant a phobl ifanc yn *With children and young people at :*

Uned Y Plant *Children's Unit*, Ysbyty Gwynedd, Bangor

Derwen - Tîm Integredig ar gyfer Plant Anabl *Integrated Team For Disabled Children*,
Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Y Ffôr



Cyhoeddwyd Mawrth 2015 gan Cromen – www.cromen.co.uk

Published March 2015 by Cromen – www.cromen.co.uk

Cynllunio *Design* : Almon – www.almonia.co.uk



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board



Cyflwyniad

Dyma gyfrol i gofnodi a dathlu cynllun celf a stori o'r enw **Silff Storis**. Prosiect creadigol ar gyfer plant a theuluoedd yw **Silff Storis** a ddyfeisiwyd gan Uned Celfyddydau Cymunedol, Cyngor Gwynedd. Bu i'r artist Catrin Williams a'r storiwraig Fiona Collins weithio gyda phlant a phobl ifanc yn Uned Y Plant, Ysbyty Gwynedd a Gwasanaeth Derwen - Tîm Integredig ar gyfer Plant Anabl i greu casgliad o straeon a gwaith celf. Cynhaliwyd cyfresi o weithdai creadigol wedi eu dyfeisio i hwyluso cyfleoedd i'r cyfranogwyr rannu straeon drwy gyfrwng y celfyddydau.

Mae'r llyfr hwn yn cyflwyno detholiad o waith y plant a grëwyd yn ystod y rhaglen; mae yma straeon lliwgar llawn dychymyg a delweddau gwreiddiol a chreadigol. Gwaith gwreiddiol y plant a geir yma, yn union fel yr adroddwyd y straeon, a'r delweddau wedi eu hatgynhyrchu i ddarlunio'r cynnwys.

4

Mae darllen gyda'n plant yn cyfrannu'n bositif tuag at eu datblygiad drwy ddatblygu creadigrwydd a chynnig cyfleoedd i

ddefnyddio eu dychymyg. Mewn oes ble mae ein bywydau i gyd yn brysur gyda gwaith ac ymrwymadau o bob math; mae treulio amser gyda'n plant i ddarllen yn cynnig cyfle i ffocysu ar y teulu a threulio amser gyda'n gilydd. Mae darllen yn cynnig cyfle i fondio ac yn ein galluogi i gyfathrebu a rhannu ar sail un i un.

Drwy ddarllen allan yn uchel i'n plant 'rydym yn gosod sylfaen gref ar gyfer datblygu eu sgiliau darllen a'u sgiliau academiaidd i'r dyfodol. Mae darllen hefyd yn eu cynorthwyo i feistroli datblygiad iaith, adeiladu

sgiliau gwranddo ac yn cynyddu lefel canolbwyntio. Mae darllen a chreu straeon yn galluogi plant i fynegi eu hunain yn fwy hyderus ar lafar ac yn ysgrifenedig. Drwy ddarllen llyfrau â delweddau ynddynt mae plant yn gallu datblygu gwerthfawrogiad o'r celfyddydau drwy gyflwyniad i gelfyddyd o bob math; mae lluniau'n fath bwysig o lythrennedd hefyd ac yn ffordd dda o ddilyn stori i'r rheiny sydd ddim yn hyderus gyda darllen. Mae darllen yn ehangu ein gorwelion, yn ein cyflwyno i syniadau a sefyllfaoedd newydd gan fagu dealltwriaeth o bobl eraill a'u ffordd o weld y byd.

Dyma lyfr gan blant i blant, llyfr i'w gadw ar eich 'silff storis' i'w rannu a'i fwynhau am flynyddoedd i ddod. Mae adran yng nghefn y llyfr i chi ychwanegu eich storïau a'ch delweddau eich hun! Mwynhewch y llyfr hwn a byddwch yn ddewr a chrëwch straeon a lluniau o bob math!

Gwawr Wyn Roberts

Swyddog Datblygu Celfyddydau Cymunedol, Cyngor Gwynedd

5



Introduction



6

This book records and celebrates an art and story scheme called **Silff Storis**. **Silff Storis** is a creative project for children and families, devised by Gwynedd Council Community Arts Unit. The artist Catrin Williams and the storyteller Fiona Collins worked with children and young people at the Children's Unit, Ysbyty Gwynedd and the Derwen Service - the Integrated Team for Disabled Children, to create a collection of stories and artwork. A series of creative workshops was held; devised to facilitate opportunities for the contributors to share stories through the medium of the arts.

This book includes a selection

of the children's work created during the programme; there are imaginative, colourful stories and original and creative images. The children's original work can be found here, exactly as the stories were told, and the images have been reproduced to illustrate the content.

Reading with our children positively contributes towards their development through developing creativity and providing opportunities to use their imagination. In a time when all our lives are busy with work and

all types of commitments; spending time with our children to read offers an opportunity to focus on family and spend time with each other. Reading provides an opportunity to bond, and enables us to communicate and share on a one to one basis.

Through reading aloud to our children we set a strong basis for developing their reading skills and their academic skills for the future. Reading also helps them to master the development of language, build on listening skills and increases concentration levels. Reading and creating stories enables children to express themselves more confidently, while writing and speaking. Through reading books with illustrations in them, children can develop an appreciation of the arts through an introduction to all kinds of art; illustrations are also an important type of literacy and are a good way to follow the story for those who are unconfident readers. Reading expands our horizons, introduces us to new ideas and situations by nurturing an understanding of other people and their way of seeing the world.

This is a book for children by children, a book to be kept on your 'silff storis' (story shelf) to be shared and enjoyed for years to come. There is a section in the back of the book for you to add your own stories and illustrations! Enjoy this book and be brave, create your own stories and illustrations!

Gwawr Wyn Roberts

Community Arts Development Officer, Gwynedd Council

7

Silff Storis

YSBYTY GWYNEDD, BANGOR

Siôn a'r Crocodeil	10
Chloe and Jack's Travels	12
The Invisible Flying Rabbits	14
Pirateland	16
Cowbois ar Goll	18
Y Gêm Fawr	20
Bob a'r Goeden	22
Wiliam a'r Hosan Ddrewllyd	24

CLWB DERWEN, BLAENAU FFESTINIOG

Kristoff a'r Robin Goch	26
Y Fam ar Goll	28
An Old Lady Goes Bang!	30

CLWB DERWEN, CAERNARFON

Y Spacemon	32
Y Goeden Fawr	34
Stori Charlie	36
Y Ddraig	38
Y Ddraig Goch	40
Y Ddraig a aeth i'r Sêr	42

CLWB DERWEN, Y FFÔR

Y Wylan Hael	44
One Man Band	46
The Magical Doors	48
Y Cowbois	50



Siôn a'r Crocodeil

Un diwrnod roedd 'na
un hogyn o'r enw Siôn.
Roedd Siôn yn byw efo'i fam.
Yn gynt roedd
o'n fabi.
Ddaru Siôn
dyfu i fyny'n
hogyn mawr.

Ddaru fo fynd
efo'i ffrindiau i chwarae.
Aeth Siôn yn rhy bell o'r tŷ
ac wedyn ... Ddaru fo fynd
i'r afon a daeth crocodeil
mawr allan ac wedyn ...
SNAP!

Ddaru Siôn redeg yn ôl i'r
tŷ. Ddaru mam Siôn roi row
i'r crocodeil ac i Siôn!
Y Diwedd



Chloe and Jack's Travels

Once there was a girl who wanted to get away from Barmouth because she felt there was nothing there. She wanted to go far away to the other side of the world. She liked city life and she wanted to travel. On her journey she met Jack.

Jack's huskies Alaska and Kaia were homesick for the frozen North. So was their puppy Scooby. So one day he harnessed them to his sledge and set out from Gerllan towards the frozen North.

The journey was long and hard and Scooby the puppy couldn't manage the whole journey, so he travelled in the sledge with Jack.

When Chloe met them and heard about Jack's plans, she decided to join them. Alaska and Kaia were strong, and they carried Jack, Chloe and Scooby the whole way. On the way they saw the Northern Lights – they were beautiful.



CHLOE & JACK
YSBYTY GWYNEDD
BANGOR

At the North Pole Jack collected ice samples to bring back to study. What he didn't realise was that there were diamonds deep in the ice. When he discovered them he gave the diamonds to Chloe. Chloe made a necklace of the diamonds and called the necklace the Northern Lights.

The Invisible Flying Rabbits

Once upon a time there were two red rabbits that were invisible. They couldn't find their way home because they had to fly. They did know how to fly but they were tired. They flew in the air and caught a yellow, white, pink and blue butterfly. They were flying around everywhere until they flew in the air to the North Pole. They banged into the North Pole and they fell down into a tomato plant, and that is why they were red.



Pirateland

Once upon a time, there was a rhino called Riley who lived in a stable in Rileyland. He had a slide and used it to launch himself into the sky. He flew out over the sea, and looking down, he saw a pirate ship.

The pirate saw the flying rhino and thought, 'He'd be a great help with my pirating.'

She called the rhino down, but when he landed he was so heavy that he sank her ship.

Now the pirate and the rhino were lost at sea. They didn't know what to do, but then the rhino saw a tree far away.

The pirate thought:
'Trees can't grow in the

sea: it must be on some land.'

So she said to the rhino, 'Let's swim to that island.'

When they got there they saw the tree was an apple tree. The pirate was hungry and thirsty, so she wanted to eat an apple, but the rhino was so quick that he ate them all.


Then the pirate thought,
'On an island in the sea there must be buried treasure.'

So she started to dig and she found some treasure – a gold crown and lots of silver coins.

'Now I'm rich!' she cried.

The rhino said, 'I'll carry you home, climb on my back.'

He flew all the way from the island to Pirateland and they both lived there happily ever after.



RILEY
YSBYTY GWYNEDD
BANGOR



Cowbois ar Goll

*Mae pedwar cowboi wedi
dod o hyd i wyth darn o
aur yn yr afon. Wnaethon
nhw deithio adre efo'r
aur ac pan drodd i'r nos
wnaeth y cowbois gampio.
John oedd yn edrych o
gwmpas i gadw lookout
am eu gelynion tra wnaeth
un arall ganu a chwarae
gitar.*

*Ond yn lwcus, aeth y
gelynion ar goll ac aethant
i'r anialwch lle roeddent ar
goll am byth.*

*Felly, daeth y cowbois
adre yn gyfoethog iawn
ac roedden nhw'n byw'n
hapus am byth.*

Y Gêm Fawr

Un diwrnod, aeth Dylan i chwarae rygbi yn y parc efo'i ffrindiau.

Wnaethon nhw gyrraedd y parc efo'i gilydd ac roedd rhaid rhannu i ddau dîm, sef Cymru a Seland Newydd.


Roedd Dylan yn cogio bod yn George North a mi wnaeth ei ffrindiau fod yn chwaraewyr enwog hefyd.

Dechreuodd y gêm a mi roddodd Dylan dacl galed ar ei ffrind Pwyll. Mi wnaeth Dylan ddwyn y bêl gan Pwyll, wedyn mi redodd at y llinell gais.

Mi wnaeth o faglu jyst cyn y llinell gais. Daeth chwaraewyr o'i dîm o i'w helpu. Wedyn mi wnaeth Owain ei ffrind redeg a sgorio cais o dan y pyst.

Wnaeth Cymru guro Seland Newydd o bump pwynt i ddim.

20



OSIAN
YSBYTY GWYNEDD
BANGOR

21

Roedd hyfforddwr Seland Newydd yn andros o flin, ac wnaeth o roi'r bai ar y chwaraewyr, achos wnaethon nhw golli'r bêl yn syth.

Wnaeth Cymru ennill Cwpan y Byd a nhw oedd yn dathlu'r noson honno.



Bob a'r Goeden

*Roedd hogyn o'r enw Bob
yn swingio ar goeden oedd
yn edrych fel cynnwr,
tan wnaeth o ddisgyn.*

*Roedd o wedi malu
soged ei ysgwydd ac
wedynt roedd rhaid iddi fo
ddod i Ysbyty Gwynedd.*

*Wnaethon nhw drwsio
fo ac roedd rhaid iddo fo
aros am wythnos, wedyn
aeth o adre.*

*Aeth o yn ôl at y
goeden, a gan fod o wedi
cofio be' digwyddodd,
wnaeth o falu'r goeden.*

*Syrthiodd y goeden ond
wnaeth hi ddisgyn reit ar
Bob a malodd ei ddwy goes!*



Wiliam a'r Hosan Ddrewllyd



24

GETHIN
YSBYTY GWYNEDD
BANGOR

*Un diwrnod, roedd
hogyn o'r enw Wiliam,
roedd yn chwech oed.
Roedd o'n disgwyl i Sion
Corn ddod ac roedd o
wedi gofyn am scwtyr,
teli a beic.*

*Onnd roedd o wedi
bod yn hogyn drwg:
wnaeth o bwsio'i fam a
chicio'i frawd bach.*

*Roedd o'n disgwyl i
Sion Corn ddod.*

*Daeth Sion Corn, ond
be gafodd Wiliam? Dim
ond hosan drewllyd yn
llawn o lo!*

*Roedd Wiliam yn
anhapus am byth.*





Kristoff a'r Robin Goch

Amser maith yn ôl roedd Kristoff heb wneud dim byd. Roedd o wedi mynd i'r mynyddoedd i gampio. Roedd y tywydd yn braf a daeth Robin Goch i chwilio am fwyd. Rhoddodd Kristoff ddim byd i'r Robin Goch.

Pan wnaeth hi ddechrau nosi, roedd angen i Kristoff wneud tân, ond doedd o ddim yn gallu mynd i'w wely achos doedd o ddim yn gallu cynnau'r tân.

Dyma Elsa yn dod dros y mynyddoedd hefo glo, a rhoddodd hi'r glo i Kristoff, ac felly dyma fo'n gallu cynnau'r tân a chynhesu ei hun.

Wnaeth o dê ar y tân i'r ddau ohonyn nhw, a dyma nhw'n byw yn hapus iawn am byth.



TERRY
CLWB DERWEN
BLAENAU FFESTINIOG

27

Y Fam ar Goll

Un tro roedd 'na hogan o'r enw Belle, roedd yn byw mewn tŷ bach yn y dref. Roedd hi'n byw efo'i thad, Josh. Roedden nhw'n dlawd iawn.

Roedd ei thad yn arfer gweithio yn y mynyddoedd, fel un o'r dynion rhew. Byddai Belle yn aros adre tra roedd Josh yn gweithio, a byddai hi'n coginio yn barod erbyn iddo fo ddod adre.

Un diwrnod, wnaeth rhywun gnocio ar ddrws y tŷ. Agorodd Belle y drws a dyna lle roedd 'na hogyn. Roedd o'n hogyn da o'r enw Eric, a daeth o'n bell

iawn o'r mynyddoedd.

Dyma Eric yn dweud wrth Belle, 'Mae dy

dad wedi dod o hyd i dy fam. Roedd hi ar goll yn y mynyddoedd.'

Roedd Belle yn hapus iawn, oherwydd roedd ei mam wedi bod i ffwrdd ers i Belle gael ei geni. Wnaeth un o'r dynion rhew, Bryn, gipio'i mam, Amanda, yn syth o'r ysbyty. Doedd Belle erioed wedi

gweld ei mam ers pan oedd hi'n fabi newydd sbon.

Daeth Amanda, y fam, i lawr o'r mynyddoedd i'r tŷ. Roedd hi wedi bod yng ngharchar y dyn rhew ers geni'r babi.


Roedd Eric yn ffrind i Amanda, y fam, ac yn arfer dod a bwyd iddi hi yn y carchar.

Roedd Bryn, y cipiwr, yn frawd i Amanda. Wnaeth o ei chipio am ei fod o'n genfigennus ohoni hi. Diolch i Eric wnaeth Amanda allu dianc, ac Eric hefyd wnaeth ddweud wrth tad Belle lle roedd Amanda.

Wedyn daeth o i lawr i'r dre i chwilio am Belle a dweud wrthi hi hefyd.

Daeth Amanda yn ôl i ymuno unwaith eto hefo'i theulu ac roedd pawb yn hapus am byth.

Aeth Bryn, y cipiwr, i garchar am bum mlynedd fel cosb, ond roedd gwedill y teulu yn hapus iawn.





An Old Lady Goes Bang!

Once upon a time there was a girl who wanted to go to the soft play, but it was a bit ghastly there.

So she was all on her own eating biscuits with no one there. She had been all alone for two hundred and fifty years and had become old and wrinkly, but she was still eating biscuits. She wasn't sure where the biscuits were coming from, but she kept on eating them: she didn't want to waste them.

She had a big belly, as big as the table. It was full of biscuits.

She kept eating the biscuits, and then a spider crawled down her throat and she swallowed it. Then she exploded and biscuits went everywhere.

But the old lady went back together again by magic. Then the spider started eating biscuits: two hundred and fifty years later the spider exploded!

And that's why you shouldn't eat lots of biscuits.

Y Spacemon



32

JACK
CLWB DERWEN
CAERNARFON

Un tro, roedd spacemon yn byw ar seren ger Mars. Wnaeth o deithio o'i seren fo yn bell, i seren neis, sy'n seren wib. Roedd y seren wib yn boeth ond roedd y spacemon gallu copio gyda'r boethder.

Wedi tipyn, aeth o adre efo ffrindiau y daeth o hyd iddyn nhw ar y seren wib. Aliens oeddent, ond rhai cyfeillgar. Wnaeth yr aliens aros am sbel ac wedyn aethant yn ôl i'r seren wib. Aethant ag aur gyda nhw er mwyn rhoi sglein ar y seren wib.





Y Goeden Fawr

*Unwaith roedd 'na goeden
fawr ac roedd bachgen yn
byw yn y goeden. Roedd
o'n hapus yn y goeden.*

*Roedd o'n fabi o'r
enw Jac. Roedd mam a
dad a Roli yn byw gyda
fo. Roedden nhw i gyd yn
hapus yn y goeden.*

Roedd yr haul yn disgleirio.

*Roedd Jac bach eisiau
bwyd ond roedd y bwyd
yn rubbish. Bechod!*



Stori Charlie

*Mae'r adar yn byw ar
ein tir ni yn yr awyr.
Pan maen nhw'n cysgu,
maen nhw'n gwneud
sŵn fel neer-neer.
Wedi deffro y bore
wedyd, wnaethon nhw
fflio i bob man i weld
eu ffrind y gwningen
fach. Wnaethon nhw
benderfynu cael bywyd
hefo fo ac wedyn cysgu
yno. Cafon nhw reis a
chyri poeth poeth iawn.
Y bore wedyn aethant
adre ac wedyn aethant
i'r sŵ. Wnaethon nhw
fwyta pob dim ac wedyn
roedden nhw'n sâl.*

36

CHARLIE
CLWB DERWEN
CAERNARFON





Y Ddraig

Un tro, roedd 'na ddraig goch y roedd yn gallu rhedeg. Doedd hi ddim yn gallu hedfan, achos cafodd ei hadain ei thorri. Doedd neb yn gwybod be wnaeth ddigwydd i'r adain.

Un dirwnod, roedd 'na ras o Lanberis i Gaernarfon. Roedd bobl yn rasio yn erbyn y ddraig. Roedd y bobl yn gyflymach ac wnaethon nhw ennill. Roedd rhaid i'r ddraig fynd mewn ambiwlans o achos ei hadain.



Y Ddraig Goch

There was once a Welsh dragon. He lived in the stars. Some dragons can blow out fire but this one couldn't. He had a diamond inside a diamond, which he stole from a storyteller. He just loved diamonds. He put the diamonds in a tunnel, hidden in a box.

He was a huge dragon. He attacked a castle because there were diamonds inside. The dragon went through a hole and came out down by the water. That's why his fire was gone. Because of the water he couldn't set things on fire.

The diamonds disappeared from the dragon. While he had the diamonds he was happy. When they were gone he was sad, but he couldn't do anything about it. He just had to put up with it.

He lived sadly ever after.

40

EVAN
CLWB DERWEN
CAERNARFON



41





Y Ddraig a aeth i'r Sêr

Amser maith yn ôl roedd draig ifanc yn gwarchod trysor, roedd yn cynnwys llawer iawn iawn o arian.

Roedd gan y ddraig gastell, lle roedd hi'n cadw ei thrysor. Roedd y castell ger y môr. Castell Caernarfon oedd o. Roedd mam a thad y ddraig yn byw yno hefyd.

Byddai seren yn disgleirio uwchben y castell. Wnaeth y ddraig hedfan i fyny ac i fyny ac i fyny i'r sêr a'r holl ffordd i Pluto!

Daeth hi yn ôl o Pluto gyda charreg fawr gron a glaniodd adre. Roedd y garreg yn oer iawn ond llwyddodd pobl i'w chynhesu. Roedd pawb yn saff ac yn sownd.

Y Wylan Hael


Roedd 'na wylanod yn y goedwig ac wnaethon nhw hedfan i Bwllheli.

Aethant ar y traeth i fwydo ar basta gyda saws coch a saws gwyn.

Daeth mam Guto i lawr i'r traeth achos roedd hi'n hoffi'r aderyn.

*Roedd gan yr aderyn deledu i roi fel anrheg i Mam.
Aeth hi adre â'r teledu i wylio CBeebies.*





One Man Band

Once upon a time there was a guitar.


Ben played the guitar and the drums at the same time.

He went everywhere swimming and took his one man band to a bouncy castle.

It was his house and he lived there with Shelley and Sian.

Ben did all the cooking and made spaghetti bolognaise.

When they bounced it splashed everywhere!



BEN
CLWB DERWEN
Y FFÔR



The Magical Doors

There are two colourful windows in Llangybi in the church. They show you about God. If you go really close to the window they go shiny in the sun.

At night they are just the same. When they are magic they turn into doors twice a day, at six o'clock in the morning and at six o'clock in the evening.


One day at six o'clock Brianna went to the windows as they turned into doors. She walked through and came to somewhere special. It was colourful like the windows and bright like the sun.

48

She was all alone but she wasn't scared. She was excited. It was like a jungle

with loads of animals: tigers, monkeys... Brianna climbed up the trees and played football with the monkeys. They had a basketball competition against the lions. The monkeys won with Brianna on their side. At the end they were really happy so they had a party.


Brianna danced like Cinderella until ten o'clock.



BRIANNA
CLWB DERWEN
Y FFÔR

49

At ten o'clock the doors would close and she had to get back quickly, or be stuck there. She got back just in time for going out with her friends.



Y Cowbois

Amser maith yn ôl, roedd 'na dri cowboi o'r enw Evan, yr arweinydd, Guto, a'r trydydd oedd y cowboi di-enw. Roedden nhw'n fois da i gyd. Roedd y tri yn gweithio mewn banc cowbois yn America. Roeddent yn gyfoethog wedi gweithio ar gyfer pobl ac yn gwybod sut i ofyn am bres. Roedd y tri yn hapus.

Un diwrnod yn y banc daeth cowbois drwg i mewn efo gwn bob un, ac roeddent isio'r holl bres i gyd. 'Rhowch bopeth i ni! Popeth sy yn y banc!'

Doedd y cowbois da ddim am roi'r pres i'r cowbois drwg. Wnaeth Evan, yr arweinydd, redeg allan i swyddfa'r sheriff a dweud,

'Helpwch ni! Mae pobl drwg yn dwyn pres y banc!'

Dywedodd y sheriff, 'Dwi'n dod rŵan!'

Daeth y sheriff a'i geffyl i'r banc. Wnaeth o aros tu allan i'w dal nhw.

Dyma nhw yn dod allan a gwnaeth y sheriff eu dal nhw. Roedd y cowbois da yn oce ac yn hapus.

Ysgrifenna dy stori dy hun

Meddylia am :

Pwy sydd yn dy stori?

Lle mae dy stori'n digwydd?

Beth yw teitl dy stori?

*Darlunia un o'r pethau neu ddigwyddiadau
sy'n bwysig yn dy stori.*

*Ar y tudalennau sy'n dilyn mae patrwm wedi ei
baratoi er mwyn i ti ddechrau creu dy lyfr silff
storis dy hun.*

52

Wyt ti'n barod? I ffwrdd â thi!

Write your own story

Think about :

Who is in your story?

Where does your story take place?


What is your story's title?

*Draw a picture of one of the things or
incidents which are important in your story.*

*On the next pages a pattern has been
prepared for you to begin to create your
own 'silff stori' book.*

53

Are you ready? Go for it!



Teitl

Stori

DY ENW DI
YOUR NAME



Prosiect creadigol ar gyfer plant a theuluoedd yw **Silff Storis** a ddyfeisiwyd gan Uned Celfyddydau Cymunedol, Cyngor Gwynedd. Bu i'r artist Catrin Williams a'r storiwraig Fiona Collins weithio gyda phlant a phobl ifanc yn Uned Y Plant, Ysbyty Gwynedd a Gwasanaeth Derwen - Tîm Integredig ar gyfer Plant Anabl i greu casgliad o straeon a gwaith celf. Cynhaliwyd cyfresi o weithdai creadigol wedi eu dyfeisio i hwyluso cyfleoedd i'r cyfranogwyr rannu straeon drwy gyfrwng y celfyddydau.

Mae'r llyfr hwn yn cyflwyno detholiad o waith y plant a grëwyd yn ystod y rhaglen; mae yma straeon lliwgar llawn dychymyg a delweddau gwreiddiol a chreadigol.

Silff Storis is a creative project for children and families, devised by Gwynedd Council Community Arts Unit. The artist Catrin Williams and the storyteller Fiona Collins worked with children and young people at the Children's Unit, Ysbyty Gwynedd and the Derwen Service - the Integrated Team for Disabled Children, to create a collection of stories and artwork. A series of creative workshops was held; devised to facilitate opportunities for the contributors to share stories through the medium of the arts.

This book includes a selection of the children's work created during the programme; there are imaginative, colourful stories and original and creative images.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

